**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Nos Lun, Tachwedd 17eg 2014 am 6 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng Rob Parkes (Cadeirydd), Raymond Bartley, Margaret Bowe (cyrhaeddodd 6.13pm), Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Mark Young, Shereen Devine, Roy Tickle, Gaynor Wood, Catherine Jones, Philip Stevens & Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Brian Davies; Cyng Margaret Bowe (hwyr)

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod

**136. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Colin Hughes – Neuadd y Dref
(2) Cyng Geraint Williams – Neuadd y Dref
(3) Cyng Raymond Bartley – Neuadd y Dref
(4) Cyng Gaynor Wood – Neuadd y Dref – personol a niweidiol a gadawodd y siambr
(5) Cyng Roy Tickle - Neuadd y Dref – personol a niweidiol a gadawodd y siambr

**137. I drafod cynigion ar gyfer goruchwyliaeth Neuadd y Dref Dinbych yn y dyfodol.**
Croesawodd y cadeirydd Jamie Groves, Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden a Sion Goldsmith, Swyddog Arweiniol Asedau a Chymunedau, Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden a gwahoddodd Mr Groves i annerch y cyfarfod. Atgoffodd Mr Groves y cyfarfod hanes y mater. Roedd y cyngor tref ar hyn o bryd yn cyfrannu £20,000 i gynorthwyo gyda rhedeg neuadd y dref. Roedd angen i GSDd wneud toriadau i'w gyllideb. £17,000 oedd balans y cymhorthdal ar gyfer neuadd y dref gyda CSDd yn ei dalu. Roedd y costau rhedeg yn £17k yn fwy na'r incwm.
Y cynnig i'r cyngor tref oedd ymofyn am y balans oddi wrth y cyngor tref. Os na ddaw o hyd i'r £17k bydd lleihad yn y cyfleusterau sydd ar gael.
Cadarnhaodd Mr Groves y deallir y pwysau sydd ar y cyngor tref.
Roedd neuadd y dref wedi perfformio yn well a chynhyrchwyd mwy o incwm. Roedd rhan fwyaf o gyfleusterau CSDd yn Ninbych yn hunangynhaliol. Byddai methiant i sicrhau'r £17,000 yn arwain at gau'r adeilad ar rai dyddiau a gwrthodiad i gynnal rhai digwyddiadau. Nid oedd modd codi'r ffioedd bwcio - roedd y ffioedd yn gystadleuol. A fydd y cyngor tref yn parhau gyda'r cyfraniad o £20,000 ac a fyddai'n cyfrannu £17,000 ychwanegol neu ryw gyfraniad arall. Nid oedd modd gwarantu incwm ychwanegol. Roedd Mr Groves yn dymuno osgoi lleihad ar y gwasanaeth am ei fod yn gyfleuster cymunedol gwerthfawr. Roedd adeiladau eraill yn y dref yn cael eu datblygu a"r posibilrwydd o gael effaith ar neuadd y dref.

Ymatebodd Mr Groves a Mr Goldsmith i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar:

(1) Cyfanswm y costau rhedeg.
(2) Y posibilrwydd o fygythiad blynyddol i'r adeilad.
(3) Roedd cyfraniad y cyngor tref yn cynorthwyo gyda denu ariannu ychwanegol i waith gael ei wneud ar yr adeilad.
(4) Byddai £17k yn sicrhau fod yr adeilad yn gweithredu'n llawn.
(5) Roedd y cytundeb presennol yn un flynyddol ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

(6) Hyblygrwydd ar y £17k.
(7) Toriadau ac effeithlonrwydd y Gwasanaeth Hamdden.
(8) Cynaladwyedd cyfleusterau Dinbych.
(9) £17k oedd y llinell isaf, y gweddill yn gymhorthdal CSDd.
(10) Ymddiriedolaethau hyd braich - effeithiolrwydd neu fel arall.
(11) Goblygiadau trosglwyddiad ased llawn yr adeilad i'r cyngor tref ac ariannu allanol.
(12) Graddfa amser trosglwyddiad ased.
(13) Byddai £17 yn diogelu fod yr adeilad yn gweithredu fel y mae ar hyn o bryd ac yn cynnal y gwasanaethau.
(14) Rhenti stiwdios 1 a 2.
(15) Roedd £17k yn cyfartalu a hanner swydd llawn amser a'r posibilrwydd o doriadau oriau.
(16) Dichonoldeb trosglwyddiad ased.
(17) Dichonoldeb trosglwyddiad ased i grŵp cymunedol.
(18) Argaeledd ariannu yn dilyn trosglwyddiad ased.
(19) Sefyllfa gweithwyr cyflogedig cyngor tref oedd hefyd yn gynghorwyr tref.
(20) Costau cynnydd blynyddol oherwydd codiad mewn cyflogau, chwyddiant ac ati.

Gofynnodd Mr Groves am i unrhyw benderfyniadau gan y cyngor tref eu darparu cyn y Nadolig neu yn gynnar wedi'r Nadolig.

Diolchodd y cadeirydd i'r ddau am eu presenoldeb a'u cyflwyniad.

Gadawodd Mr Groves a Mr Goldsmith y siambr ac aeth y cyfarfod ymlaen i gryn drafod y mater. Mynegwyd nifer o sylwadau ac ymatebodd clerc y dref i gwestiynau ar doriadau posib i gyllideb y cyngor.

Penderfynwyd ar ddau benderfyniad :

**(1) Fod clerc y dref yn paratoi rhestr ar gyfer y cyngor o gynilion potensial.**
**(2) Fod y cyngor tref yn cytuno mewn egwyddor i ddarparu ariannu ychwanegol ac i drafod dros y cyfarfodydd nesaf sut roedd y cyngor i gyflawni hyn**

Pasiwyd y ddau benderfyniad yn unfrydol.

Cytunwyd hefyd i gynrychiolaeth y cyngor ar y gweithgor rheoli gael ei newid ac i'r maer y Cyng Rob Parkes gael ei apwyntio yn lle'r Cyng Roy Tickle.

**138. Taliad Cyfrifon**

(1) PWLB - ail daliad benthyciad ynglŷn â hen Lysdy Dinbych - £7,959.20
(rhif siec 008487)
(Datganodd y Cyng Medwyn Williams ddiddordeb)

Am nad oedd mwy i'w drafod, daeth y cadeirydd a'r cyfarfod i ben am 7.29pm.

Arwyddwyd: ..........................................................................................(Cadeirydd)

Dyddiad: ..............................